

# Plant a Rhieni: Adroddiad ar agweddau a defnyddo'r cyfryngau

Cyhoeddwyd 7 Mai 2025

# Rhagair

Ers 2003, mae gan Ofcom ddyletswyddau i hyrwyddo ac ymchwilio i ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Rydyn ni'n diffinio ymwybyddiaeth o'r cyfryngau fel y gallu i ddefnyddio, deall a chreu cyfryngau a chyfathrebiadau ar draws nifer o fformatau a gwasanaethau. Mae Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 wedi egluro ac ychwanegu manylion penodol at ein dyletswyddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gan gynnwys cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o ffyrdd y gallant ddiogelu eu hunain a phobl eraill wrth ddefnyddio gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, yn enwedig drwy eu helpu i ddelio â'r canlynol: camwybodaeth a thwyllwybodaeth; cynnwys sy'n effeithio'n anghymesur ar grwpiau penodol, gan gynnwys menywod a merched; cynnwys o bwysigrwydd democrataidd; a sut mae data personol pobl yn cael ei ddefnyddio.

Mae rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau Ofcom yn cyflawni'r dyletswyddau hyn drwy ein Strategaeth Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau, a gafodd ei chyhoeddi yn 2024, sy'n nodi'r tair elfen ganolog o'n gwaith: ymchwil, tystiolaeth a gwerthuso; ymgysylltu â llwyfannau; a phobl a phartneriaethau.

Mae ein hastudiaethau blynyddol – ein prosiectau ymchwil ansoddol y Cyfryngau ym Mywyd Oedolion a'r Cyfryngau ym Mywyd Plant, a'n Tracwyr Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau – wedi hen ennill eu plwyf, gan ddarparu gwybodaeth gyfoethog am sut mae defnydd pobl o'r cyfryngau, eu hagweddau a'u dealltwriaeth wedi newid dros amser.

Mae ein cwestiynau tracio yn rhoi sylw i amrywiaeth o faterion, fel y nifer sy'n defnyddio gwahanol fathau o lwyfannau a gwasanaethau ar-lein, ac agweddau, profiadau a chredoau plant am amrywiaeth o gyfryngau: mewn geiriau eraill, maen nhw'n darparu sylfaen dystiolaeth gyfoethog i ddeall beth mae bod ar-lein yn ei olygu i blant heddiw.

Yn benodol, rydyn ni'n canolbwyntio ar ddealltwriaeth feirniadol plant, gan fod sgiliau o'r fath yn dod yn fwy a mwy pwysig mewn byd lle mae ansicrwydd cynyddol ynghylch yr hyn sy'n wir a'r hyn sy'n ffug. Rydyn ni'n disgrifio'r amrywiaeth o ffyrdd y mae plant yn delio â'u byd ar-lein personol. Hefyd, rydyn ni'n gofyn am fanteision a phryderon: yr elfennau cadarnhaol o fod ar-lein y maen nhw a'u rhieni'n eu nodi, ac i ba raddau y maen nhw'n dod ar draws deunydd problematig ac yn teimlo eu bod yn gallu cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein.

Eleni, mae gennym ni gwestiynau newydd am y pynciau diogelwch ar-lein mae plant yn dysgu amdanynt yn yr ysgol, a oes ganddynt unrhyw gyfyngiadau o ran pryd maen nhw'n cael defnyddio eu ffonau clyfar, a phwy sy'n gallu gweld eu lluniau proffil ar-lein. Am yr ail flwyddyn o'r bron, rydyn ni'n adrodd ar ddefnydd plant o adnoddau deallusrwydd artiffisial, ac eleni rydyn ni hefyd wedi gofyn i blant a phobl ifanc yn eu harddegau i ba raddau y byddent yn dibynnu ar erthygl wedi'i chynhyrchu gan ddeallusrwydd artiffisial, o'i gymharu ag erthygl wedi'i hysgrifennu gan berson.

Fel ym mhob un o'n hadroddiadau, rydyn ni'n cynnwys manylion am wahanol grwpiau o blant, gan dynnu sylw at oedran, cefndir economaidd-gymdeithasol a rhywedd lle bynnag y mae'n ddefnyddiol neu'n bosib gwneud hynny. Ac mae gennym lawer mwy o ddeunydd ar gael yn ein hadroddiad rhyngweithiol a'n tablau data.

Mae'n hollbwysig bod plant ledled y DU yn gallu datblygu amrywiaeth a dyfnder priodol o agweddau ac ymddygiadau ymwybodol o'r cyfryngau er mwyn gallu cael profiad cadarnhaol a gweithredol ar-lein, a'u helpu i lywio ac osgoi niwed posib. Wrth gwrs, mae angen i wasanaethau ar-lein hefyd greu amgylchedd ar-lein cadarnhaol a mwy diogel i blant, gan eu galluogi i ffynnu ar-lein.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys tystiolaeth o raddfa ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ymysg plant a phobl ifanc y DU i ddylanwadu ar ein gwaith ni, a gwaith ein rhanddeiliaid a gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio.

# Trosolwg

## Prif ganfyddiadau

### Y dirwedd defnyddio'r cyfryngau

- **Mae mwy o blant 3-5 oed yn defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol:** Dros y blynyddoedd diwethaf, mae mwy o rieni plant 3-5 oed yn dweud bod eu plant yn defnyddio apiau neu wefannau cyfryngau cymdeithasol. Yn 2021 a 2022, roedd tua chwarter yn eu defnyddio, gan gynyddu i dri o bob deg (29%) yn 2023 a bron i bedwar o bob deg (37%) eleni. Mae dros draean (36%) o rieni plant 3-5 oed y mae eu plentyn yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn eu defnyddio ar ran y plentyn ac mae dros bedwar o bob deg (42%) yn dweud eu bod yn defnyddio'r gwefannau neu'r apiau hyn gyda'u plentyn. Ond mae dau o bob deg (19%) o'r rhieni hyn yn dweud bod eu plentyn yn defnyddio'r apiau hyn yn annibynnol.
- **Mae gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu yn parhau i ostwng ymysg plant a phobl ifanc 4-15 oed:** Ar gyfartaledd, roedd plant a phobl ifanc 4-15 oed wedi gwylio 3 awr ac 20 munud o deledu sy'n cael ei ddarlledu bob wythnos yn 2024, yn ôl data Barb (mae hyn yn cynnwys gwylio sianeli teledu llinol yn fyw a gwylio rhaglenni teledu a oedd wedi cael eu recordio ar ddyfeisiau fel recordiwr fideo digidol). Roedd hyn 24 munud yn llai nag yn 2023 (gostyngiad o 11%).
- **Mae mwy o blant yn gwylio fideos sy'n cael eu ffrydio'n fyw, tuedd gynyddol dros y tair blynedd ddiwethaf:** Eleni, roedd dau draean (66%) o blant a phobl ifanc 3-17 oed wedi gwylio fideos sy'n cael eu ffrydio'n fyw, i fyny o 63% yn 2023 a 58% yn 2022. Plant 8-12 oed sy'n bennaf gyfrifol am y cynnydd eleni.
- **O blith yr 8 o bob 10 (79%) o blant a phobl ifanc 3-17 oed sydd â'u proffil eu hunain ar wefan cyfryngau cymdeithasol, negeseuon, rhannu fideos neu ffrydio'n fyw, mae 16% yn cynnwys llun ohonyn nhw eu hunain y gall unrhyw un ei weld:** Mae hyn yn amrywio yn ôl grŵp oedran; o 8% o ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol rhwng 3-7 oed, i 14% rhwng 8 a 12 oed a 21% o bobl ifanc yn eu harddegau.
- **Mae 16% o blant a phobl ifanc 3-17 oed yn ffrydio'n fyw:** Mae hyn yn cynyddu i 21% o bobl ifanc 13-17 oed ac mae'n fwy cyffredin ymysg plant sy'n byw mewn ardaloedd trefol (17% o'i gymharu â 9% mewn ardaloedd gwledig) a phlant mewn cartrefi ABC1 (19% o'i gymharu ag 13% mewn cartrefi C2DE).

### Profiad plant o'r byd ar-lein

- **Mae rhai plant yn defnyddio apiau cyfryngau cymdeithasol/negeseuon i gymryd diddordeb mewn achosion cymdeithasol neu wleidyddol mwy nag eraill:** Ymysg pobl ifanc yn eu harddegau sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol, mae'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol a'r rhai mewn cartrefi economaidd-gymdeithasol ABC1 yn fwy tebygol na'u cyfoedion o fod wedi: chwilio am straeon newyddion, eu rhannu neu eu trafod â phobl eraill ar yr apiau hyn; ysgrifennu eu postiadau eu hunain am achosion sy'n bwysig iddynt; dilyn ymgyrchwyr/gweithredwyr sy'n siarad am achosion sy'n bwysig iddynt; a dilyn/rhyngweithio â phleidiau gwleidyddol neu grwpiau ymgyrchu.

- **Mae mwy o blant yn gwylio fideos i'w helpu gyda'u gwaith ysgol neu i ddysgu pethau newydd:** Mae bron i hanner (48%) y plant a phobl ifanc 3-17 oed yn gwylio fideos trwy apiau neu wefannau sy'n eu helpu i ddysgu pethau newydd neu'n eu helpu gyda'u gwaith ysgol/gwaith cartref – i fyny o 42% y llynedd.
- **Mae merched yn dal yn fwy tebygol na bechgyn o gael rhyngweithiadau cas neu annifyr ar-lein:** Mae anghydbwysedd rhwng y rhywiau yn dal yn bodoli o ran rhyngweithiadau cas/annifyr ar-lein. Mae 34% o ferched yn dweud eu bod wedi profi hyn, o'i gymharu â 28% o fechgyn, yn debyg i llynedd.
- **Mae rhai plant yn fwy tebygol o weld cynnwys 'pryderus neu gas' ar-lein nag eraill:** Mae plant a phobl ifanc 8-17 oed sydd â chyflwr sy'n effeithio arnynt yn fwy tebygol na'u cyfoedion o ddweud eu bod wedi gweld cynnwys ar-lein a oedd yn bryderus/cas yn eu barn nhw (41% o'i gymharu â 31%). Mae'r un peth yn wir ar gyfer plant o'r oedran hwn sy'n byw mewn ardaloedd trefol a'r rhai mewn ardaloedd gwledig (34% o'i gymharu â 23%).
- **Mae un o bob pump o bobl ifanc yn eu harddegau yn dilyn rhaglen ffitrwydd ar-lein – cynnydd ers y llynedd:** Mae 19% o bobl ifanc yn eu harddegau yn defnyddio apiau/gwasanaethau ar-lein i ddilyn rhaglen ffitrwydd, i fyny o 14% y llynedd. Y rhai iau (13-15 oed) yn y grŵp oedran hwn sy'n sbarduno'r cynnydd, ar 19%, i fyny o 11% y llynedd. Mae merched a bechgyn yr un mor debygol o ddilyn rhaglen ffitrwydd ar-lein. Fodd bynnag, mae plant mewn cartrefi ABC1 yn fwy tebygol o wneud hyn na'r rhai mewn cartrefi C2DE (23% o'i gymharu â 13%).
- **Nid yw'r rhan fwyaf o rieni'n credu bod y manteision yn drech na'r risgiau o ran eu plant yn defnyddio apiau cyfryngau cymdeithasol, negeseuon a rhannu fideos:** Mae tri o bob deg o rieni plentyn 3-17 oed yn cytuno bod y manteision yn drech na'r risgiau o ran eu plant yn defnyddio'r apiau hyn. Mae canfyddiadau rhieni'n gwella wrth i blant dyfu'n hŷn: mae pedwar o bob deg (39%) o rieni unigolyn 13-17 oed yn credu bod y manteision yn drech na'r risgiau o ran eu plentyn yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, o'i gymharu ag ychydig dros ddau o bob deg (23%) o rieni plentyn 3-12 oed.
- **Mae dros saith o bob deg (72%) rhiant yn poeni na fyddai eu plentyn yn gallu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n wir a'r hyn sy'n ffug ar-lein.** Mae hyn yn debyg iawn i gyfran y rhieni sy'n bryderus ynglŷn â'u plentyn yn gweld cynnwys sy'n amhriodol i'w oedran neu gynnwys rhywiol ar-lein (76% a 74% yn y drefn honno).

## Technoleg ac ymddiriedaeth

- **Mae ymwybyddiaeth o algorithmau argymell wedi cynyddu ers 2023 ac mae'n dal yn uwch ymysg plant hŷn a'r rhai mewn cartrefi mwy cefnog:** Dywedodd dros chwech o bob deg (63%) o blant a phobl ifanc 8-17 oed eu bod yn ymwybodol o algorithmau i ddangos cynnwys penodol i ddefnyddwyr, i fyny o 59% y llynedd. Yr un fath â llynedd, mae'r gyfran sy'n ymwybodol yn cynyddu gydag oedran, o 44% o blant 8-9 oed i 81% o bobl ifanc 16-17 oed yn 2024. Mae tri chwarter y plant mewn cartrefi AB yn ymwybodol o'r defnydd o algorithmau, o'i gymharu â tua chwech o bob deg plentyn mewn cartrefi C1, C2 neu DE.
- **Dywedodd hanner y plant eu bod yn defnyddio adnoddau deallusrwydd artiffisial (AI), sy'n uwch na llynedd, ac mae mwy o blant yn defnyddio'r adnoddau hyn ar gyfer dysgu a/neu waith ysgol:** Mae hanner (50%) y plant a phobl ifanc 8-17 oed yn dweud eu bod wedi defnyddio AI, i fyny o 46% y llynedd. Pobl ifanc 13-15 oed sy'n bennaf gyfrifol am y cynnydd

hwn. Eleni, mae’r rhai sy’n defnyddio AI yn fwy tebygol na llynedd o ddweud eu bod yn defnyddio’r adnoddau hyn ‘i ddysgu’ neu ‘ar gyfer yr ysgol’.

- **Mae pobl ifanc sy'n defnyddio AI wedi'u rhannu ynghylch a ddylent ymddiried ynddo ai peidio:** Mae 35% o bobl ifanc yn eu harddegau sy’n defnyddio AI yn dweud y byddent yn ymddiried i’r un graddau mewn stori newyddion wedi’i chynhyrchu gan AI ag un wedi’i hysgrifennu gan berson, sy’n debyg iawn i’r gyfran sy’n dweud y byddent yn ymddiried llai mewn erthygl AI nag erthygl gan berson (36%). Mae 17% o’r grŵp hwn yn dweud y byddent yn ymddiried mwy mewn erthygl wedi’i chynhyrchu gan AI nag un wedi’i hysgrifennu gan berson. Mae hyn yn fwy tebygol o fod yn wir ymysg y grŵp iau na’r grŵp hŷn o bobl ifanc yn eu harddegau (19% o bobl ifanc 13-15 oed sy’n defnyddio AI o’i gymharu ag 13% o bobl ifanc 16-17 oed) ac ymysg pobl ifanc yn eu harddegau sy’n defnyddio AI ac sy’n byw ag o leiaf un cyflwr sy’n effeithio arnynt (23% o’i gymharu ag 14% heb gyflwr o’r fath).
- **Ymysg y grŵp iau o bobl ifanc yn eu harddegau (12-15 oed), er mai TikTok yw’r un ffynhonnell newyddion sy’n cael ei defnyddio amlaf ganddynt, eu teulu yw eu ffynhonnell newyddion fwyaf dibynadwy.** Wrth edrych ar ffynonellau newyddion penodol (gwefannau, sianeli unigol ac ati), mae 30% o bobl ifanc 12-15 oed sy’n chwilio am newyddion yn troi at TikTok, wedi’i ddilyn yn agos gan YouTube (27%), yna Facebook ac Instagram (21% ill dau). Ond mae dibynadwyedd yn stori wahanol; dywedodd 78% o’r bobl ifanc hyn fod newyddion gan eu teulu yn cael ei adrodd yn gywir bob amser neu’r rhan fwyaf o’r amser. Dim ond ychydig dros draean (36%) ddywedodd yr un peth am newyddion ar wefannau neu apiau cyfryngau cymdeithasol.[1]

## Gwerthuso gwybodaeth ar-lein yn feirniadol

- **Y llynedd, fe wnaethon ni adrodd bod hyder wedi gostwng ymysg pobl ifanc 16-17 oed sy’n dweud eu bod yn gwybod sut mae gwahaniaethu rhwng yr hyn sy’n wir a’r hyn sy’n ffug ar-lein, ac mae’r gostyngiad hwn wedi parhau eleni:** Yn 2022, dywedodd 82% o bobl ifanc 16-17 oed eu bod yn hyderus yn gwahaniaethu rhwng y gwir a’r ffug ar-lein. Gostyngodd y gyfran hon i dri chwarter yn 2023 ac mae wedi aros yr un fath eleni.
- **Mae llai o blant na llynedd yn gallu adnabod hysbysebion ar beiriannau chwilio:** Fe wnaethon ni ddangos sgrin-lun i blant a phobl ifanc 8-17 oed o ganlyniadau chwilio am esgidiau ar Google, a gofyn iddynt pam mae’r pedwar canlyniad cyntaf yn ymddangos gyntaf. Dim ond traean (33%) sy’n defnyddio peiriannau chwilio yn y grŵp oedran hwn oedd yn gwybod bod y canlyniadau hyn ar frig y rhestr oherwydd eu bod yn hysbysebion y talwyd amdanynt. Mae hyn yn ostyngiad o’i gymharu â’r ddwy flynedd flaenorol, pan oedd pedwar o bob deg wedi nodi’r rheswm yn gywir.
- **Mae pobl ifanc yn eu harddegau yn dal yn gallu adnabod deunydd marchnata gan ddylanwadwyr yn well na hysbysebion ar beiriannau chwilio:** Pan ddangoswyd sgrin-lun o un o’r lluniau ar gyfrif Instagram Sydney Sweeney i bobl ifanc yn eu harddegau, roedd bron i dri chwarter (73%) yn gallu gweld ei bod wedi cael ei thalu i gymeradwyo ffôn Samsung. Roedd pobl ifanc yn eu harddegau yn fwy tebygol o fod yn hyderus a gallu adnabod deunydd marchnata gan ddylanwadwyr (68%) na hysbysebion mewn canlyniadau peiriannau chwilio (36%).

[1] Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion

## Diogelwch ar-lein a rheolaethau rhieni

- **Mae plant dros 8 oed sydd wedi cael gwersi diogelwch ar-lein yn yr ysgol yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn ddefnyddiol iawn o'i gymharu â llynedd:** Mae bron pob plentyn a pherson ifanc 8-17 oed (92%) yn gallu cofio cael o leiaf un wers yn yr ysgol am fod ar-lein a'r risgiau posib. O'u plith, dywedodd 45% fod y gwersi hyn yn ddefnyddiol iawn iddynt, i fyny o 39% yn 2023. Y grŵp oedran 10-12 sy'n bennaf gyfrifol am y cynnydd hwn.
- **Dyma'r tri phwnc diogelwch ar-lein mwyaf cyffredin mewn gwersi yn yr ysgol: Sut mae adnabod cynnwys niweidiol (63%), sut mae cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel (63%), a bod yn garedig ac yn barchus tuag at bobl eraill ar-lein (62%).** Mae plant ysgol uwchradd yn fwy tebygol o ddysgu am amrywiaeth ehangach o bynciau ac mae plant mewn cartrefi ABC1 yn fwy tebygol o ddysgu am bynciau penodol o'i gymharu â phlant mewn cartrefi C2DE: sut mae gofalu amdanyn nhw eu hunain a theimlo'n dda wrth dreulio amser ar-lein; sut mae chwilio am wybodaeth gywir; a sut mae adnabod hysbysebion ar-lein. Mae llai o blant yn dysgu am sut mae adnabod newyddion ffug (23%) a beth i'w wneud os byddant yn gweld newyddion ffug (19%).
- **Nid yw dros hanner y plant a phobl ifanc 8-17 oed sy'n defnyddio ffonau clyfar i fynd ar-lein yn cael eu defnyddio o gwbl yn yr ysgol:** Mae bron pob plentyn a pherson ifanc 8-17 oed (94%) sy'n mynd ar-lein ar eu ffonau yn dweud bod o leiaf un cyfyngiad arnynt o ran eu defnyddio, naill ai gartref neu yn yr ysgol. Mae hyn yn fwy tebygol o fod yn wir ymysg plant 8-12 oed na phobl ifanc 13-17 oed. Mae dros wyth o bob deg (82%) yn dweud bod adegau pan nad ydynt yn cael defnyddio eu ffonau yn yr ysgol, ac mae dros hanner (56%) yn dweud eu bod wedi'u hatal rhag eu defnyddio bob amser yn yr ysgol.

# Methodoleg


Daw data'r adroddiad hwn o'n harolygon meintiol Traciwr Ymwybyddiaeth Plant a Rhieni o'r Cyfryngau yn bennaf, ac mae'n trafod y defnydd o'r cyfryngau, agweddau a dealltwriaeth ymysg plant a phobl ifanc 3-17 oed yn y DU, ac o fewn is-setiau yn y grŵp hwn. Lle bo'r data'n ymwneud â phlant 3-7 oed, caiff ei ddarparu gan rieni neu warcheidwaid yn hytrach na gan y plant eu hunain. Mae rhagor o fanylion, gan gynnwys dadansoddiad demograffig ychwanegol ac ymatebion i'r set lawn o gwestiynau'r arolwg ar gael yn yr adroddiad rhyngweithiol a'r tablau data cysylltiedig. Mae crynodeb o feintiau'r samplau a'r dulliau casglu data i'w weld yn y ffeithlun isod. Mae disgrifiad manylach o'r gwaith o gasglu a dadansoddi data ar gyfer yr astudiaethau hyn ar gael yn yr Adroddiad Technegol, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r tablau data.

I'n helpu i ddarparu naratif cyffredinol ar y themâu allweddol o ran profiad plant o'r cyfryngau yn 2024, mae'r adroddiad hwn hefyd yn defnyddio ein hymchwil Y Cyfryngau ym Mywyd Plant. Mae'r astudiaeth Y Cyfryngau ym Mywyd Plant yn brosiect hydredol, ethnograffig, ansoddol sydd wedi bod yn cael ei gynnal ers 2014 ac mae'n ategu data ein harolwg meintiol i ddarparu naratif cyffredinol ar brofiad plant o'r cyfryngau. Cyn belled ag y bo modd, mae'r ymchwil wedi dilyn yr un 21[2] o blant a

[2] Yn 2021, cafodd maint sampl Y Cyfryngau ym Mywyd Plant ei gynyddu o 18 i 21 er mwyn i ni allu edrych ar y cyfryngau ym mywyd plant mewn amrywiaeth ehangach o amgylchiadau, gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion agored i niwed ychwanegol.

phobl ifanc, 8-17 oed, dros flynyddoedd olynol, gan eu cyfweld ar gamera bob blwyddyn am eu harferion a'u hagweddau at y cyfryngau.

Mae'r traciwr Ymwybyddiaeth Plant a Rhieni o'r Cyfryngau yn cynnwys tri arolwg: yr arolwg Rhieni'n Unig, Ymddygiad ac Agweddau Plant Ar-lein (COBA) a Gwybodaeth a Dealltwriaeth Plant Ar-lein (COKU).




Eleni, rydyn ni wedi newid y bandiau oedran ar gyfer grwpio ac adrodd ar ddata'r tri arolwg. Pwrpas hyn yw cyd-fynd â datganiad Amddiffyn Plant Ofcom, lle rydyn ni'n cynnig pum categori oedran er mwyn deall y risg o niwed i blant ar-lein: 0-5, 6-9, 10-12, 13-15 ac 16-17. Mae'r rhain yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n dangos y newidiadau pwysig yn natblygiad ac ymddygiad plant ar-lein, gan gyd-fynd â Chod Dylunio Priodol i Oedran Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.[3]

Dim ond plant dros 8 oed rydyn ni'n eu holi'n uniongyrchol. Felly, dim ond rhieni sydd wedi darparu'r data ar gyfer plant dan 8 oed. Mae hyn yn golygu bod ein dadansoddiad data ar gyfer y grŵp oedran 6-9 wedi'i rannu'n ddau bwynt data gwahanol, sef plant 6-7 oed a phlant 8-9 oed, o ganlyniad i'r gwahaniaeth yn y fethodoleg. Nid ydym yn casglu data ar gyfer plant dan 3 oed. Rydyn ni wedi amlinellu'r newidiadau yn y tabl isod:

| Bandiau oedran blaenorol | Bandiau oedran newydd |
|---|---|
| 3-4 oed | **3-5 oed** |
| 5-7 oed | **6-7 oed** |
| 8-11 oed | **8-9 oed a 10-12 oed** |
| 12-15 oed | **13-15 oed** |
| 16-17 oed | **16-17 oed** |

Drwy gydol yr adroddiad, byddwn yn cyfeirio at 'blant' pan fyddwn yn siarad am y 96% o blant sy'n mynd ar-lein. Fodd bynnag, pan fyddwn yn cyfeirio at '*bob* plentyn', rydyn ni'n cynnwys y gyfran

[3] Dylunio priodol i oedran: cod ymarfer i wasanaethau ar-lein

gymharol isel o blant ifanc iawn yn bennaf nad ydynt yn mynd ar-lein (sy'n perthyn i'r grŵp oedran 3-5 yn bennaf). Sylwch fod 96% o blant 6-7 oed yn mynd ar-lein ac ar ôl i blant gyrraedd y grŵp oedran 10-12 oed, mae dros 99% ohonynt yn gwneud hynny.

Mae'r un egwyddor yn berthnasol pan fyddwn yn cyfeirio at rieni: Mae 'rhieni plant 3-17 oed' yn golygu rhieni plant sy'n mynd ar-lein. Pan fyddwn yn cyfeirio at 'rieni *pob* plentyn a pherson ifanc 3-17 oed', rydyn ni'n cynnwys y rhieni hynny nad yw eu plant yn mynd ar-lein.

Mae achosion eraill lle byddwn yn cyfeirio at is-set fwy penodol o blant; er enghraifft, plant sy'n defnyddio math penodol o ap neu sy'n gwneud gweithgaredd cyfryngau penodol. Byddwn yn nodi'r rhain drwy gydol yr adroddiad.

Hefyd rydyn ni'n cyfeirio at 'bobl ifanc yn eu harddegau' drwy gydol yr adroddiad. Mae hyn yn golygu pobl ifanc 13-17 oed, yn hytrach na 13-19 oed.